**Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (cyfeirir ato fel "y Coleg" neu "CBCDC" drwy'r ddogfen):**
**Telerau ac Amodau Derbyn ar gyfer Ymgeiswyr Cartref y cynigiwyd lle iddynt astudio yn CBCDC.**

Llongyfarchiadau ar gael cynnig lle i astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen a deall y Telerau ac Amodau isod cyn derbyn eich cynnig. Mae CBCDC yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Brifysgol De Cymru (PDC). Mae CBCDC yn cynnig ac yn darparu dyfarniadau Addysg Uwch achrededig y DU. Dilysir y dyfarniadau hyn gan Brifysgol De Cymru. Mae myfyrwyr yn dilyn cyrsiau yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru sy'n arwain at Raddau/dyfarniadau Prifysgol De Cymru.

Trwy dderbyn lle yn CBCDC, rydych yn cytuno i ymrwymo wrth y telerau hyn:

## 1. Ymgeisio

Pan fyddwch yn derbyn y cynnig o le yn CBCDC bydd "Contract" ar y telerau a nodir isod, ac a nodir yn y Llythyr Cynnig, yn cael ei ffurfio rhyngoch chi a CBCDC.

Mae eich Contract yn cynnwys y "Telerau Derbyn" hyn sydd, pan gytunir iddynt, yn sicrhau lle i chi ar eich cwrs ac yn rhoi'r cyfle i chi gofrestru os ydych yn bodloni telerau eich cynnig, eich gofynion mynediad ac unrhyw ofynion arbennig eraill sy'n ofynnol ar gyfer cael eich derbyn ar eich cwrs. Mae eich Contract hefyd yn cynnwys y Telerau ac Amodau Cofrestru, a drafodir isod, a ddefnyddir i reoli'r berthynas ar ôl i chi gofrestru fel myfyriwr CBCDC.

## 2. Canslo ac ad-daliadau

**Mae gennych hawl statudol i ganslo eich Contract. Bydd y cyfnod canslo yn dod i ben ar ddiwedd 14 diwrnod calendr ar ôl y diwrnod y byddwch yn derbyn y cynnig o le yn CBCDC.** I fodloni'r dyddiad terfyn canslo, rhaid i chi anfon eich hysbysiad o ganslo yn ysgrifenedig at y Coleg cyn i'r cyfnod canslo ddod i ben. **Gallwch ganslo trwy UCAS neu drwy anfon y ffurflen sydd i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon i admissions@rwcmd.ac.uk.**

Os byddwch yn canslo'r Contract hwn fel y nodir uchod o fewn 14 diwrnod o'r diwrnod y byddwch yn derbyn y cynnig o le, bydd y Coleg yn eich ad-dalu am yr holl daliadau a dderbyniwyd gennych o dan y Contract hwn ar gyfer eich cwrs. Dim ond i'r unigolyn neu'r sefydliad a dalodd y ffioedd y gwneir ad-daliadau, oni bai ein bod yn cytuno'n ysgrifenedig fel arall. Ni wneir unrhyw ad-daliadau am unrhyw daliadau eraill, megis ffioedd rhentu am lety a fydd yn cael eu rheoli drwy gontract gwahanol. Bydd y Coleg yn gwneud yr ad-daliad heb oedi gormodol, a dim hwyrach na 14 diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff ei hysbysu am eich penderfyniad i ganslo'r Contract hwn.

Os byddwch yn penderfynu canslo'r Contract hwn ar ôl y cyfnod canslo 14 diwrnod, efallai na fydd y Coleg yn ad-dalu'r taliadau a dderbyniwyd gennych. Yn dibynnu ar pa bryd y byddwch yn canslo'r Contract (yn arbennig, boed hynny cyn neu ar ôl cofrestru) efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cyfran o'ch ffioedd dysgu, fel y nodir yng ngweithdrefnau Ffioedd Dysgu a Chyllid CBCDC.

Gallwn ddechrau darparu'r Cwrs i chi o dan y Contract cyn diwedd y cyfnod canslo 14 diwrnod os ydych wedi gofyn i ni wneud hynny. Gallai hyn fod yn berthnasol os ydych wedi gwneud cais drwy'r system Glirio neu'n fuan iawn cyn y disgwylir i'ch Cwrs ddechrau.

Os byddwch yn cofrestru ac yn dechrau eich cwrs o fewn y cyfnod canslo 14 diwrnod, a'ch bod wedi talu blaendal, bydd ad-daliadau'n cael eu rheoli yn unol â gweithdrefnau Ffioedd Dysgu a Chyllid CBCDC.

Ar ôl Cofrestru byddwch yn dod yn fyfyriwr CBCDC a bydd y berthynas rhyngoch chi a'r Coleg yn cael ei llywodraethu gan y Telerau Derbyn a nodir yn y ddogfen hon a Thelerau ac Amodau Cofrestru CBCDC, sydd wedi'u darparu i chi ac sydd ar gael yn y Telerau ac Amodau Cofrestru ac wedi'u cynnwys fel atodiad i'r Telerau ac Amodau Derbyn hyn.

Mae'r Telerau ac Amodau Cofrestru yn cynnwys Rheolau a Rheoliadau'r Coleg, gwybodaeth preifatrwydd a pholisïau eraill.

Pan fo gwahaniaeth rhwng y Telerau Derbyn a'r Telerau ac Amodau Cofrestru, y telerau Derbyn hyn fydd yn cael blaenoriaeth cyn cofrestru a'r Telerau ac Amodau Cofrestru fydd yn cael blaenoriaeth ar ôl cofrestru. Er enghraifft, ar ôl i chi gofrestru bydd y darpariaethau cyfrinachedd a diogelu data yn y Telerau ac Amodau Cofrestru yn berthnasol (ac ni fydd y darpariaethau cyfrinachedd a diogelu data yn y Telerau Derbyn yn berthnasol).

**Dylech ymgyfarwyddo â Thelerau ac Amodau Cofrestru CBCDC cyn derbyn eich cynnig, oherwydd trwy dderbyn cynnig byddwch yn derbyn Telerau Derbyn a Thelerau ac Amodau Cofrestru CBCDC, yn ddarostyngedig i unrhyw newidiadau a nodir isod, ac mae'r ddwy set o delerau gyda'i gilydd yn ffurfio eich Contract.**

### 3. Darparu Cyrsiau a Gwasanaethau

Mae dyddiad dechrau eich cwrs yn CBCDC wedi'i nodi yn y Llythyr Cynnig.

Mae Prosbectws CBCDC, a'r holl ddeunydd printiedig ac ar y we arall sy'n eich hysbysu am gyrsiau, yn cael eu cynhyrchu cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi'r cymorth gorau posibl i ddarpar ymgeiswyr. Mae'r cynnwys, ynghyd â'r wybodaeth a ddarperir i ddarpar ymgeiswyr ar ein gwefan, mewn diwrnodau agored ac ati (gyda'i gilydd "Gwybodaeth Cyrsiau") wedi'u rhoi at ei gilydd yn gydwybodol ac mae CBCDC yn ymdrechu i sicrhau bod y Wybodaeth Cyrsiau mor gywir â phosibl pan y'i darperir.

Mae'n bosibl y bydd rhai cyrsiau y cyfeirir atynt yn y Wybodaeth Cyrsiau (a/neu yn y Llythyr Cynnig) yn cael eu newid am y prif resymau a nodir yn (a) i (d) isod.

Bydd pob ymgeisydd gweithredol sydd wedi gwneud cais, wedi cael a/neu wedi derbyn cynnig gan CBCDC a phob myfyriwr cofrestredig yn cael eu hysbysu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am unrhyw un o'r amgylchiadau ar gyfer newid a nodir isod. Bydd gwefan CBCDC hefyd yn cael ei diweddaru ar yr un pryd i adlewyrchu unrhyw newidiadau o'r fath.

Mae hyn yn cynnwys pan fo angen i CBCDC wneud unrhyw newidiadau ar ôl i'ch Cwrs ddechrau a thrwy gydol y Cwrs.

| **Pam y gallai fod angen newid y Cwrs** | **Beth mae hyn yn ei olygu?** | **Pa newidiadau y gellir eu gwneud?** |
|---|---|---|
| **(a) Pryderon iechyd a diogelwch a llesiant** | Mae'n bosibl y bydd angen i CBCDC wneud newidiadau pellach yn ystod y rhaglen astudio os yw newid o'r fath | 1. Newid sut rydym yn addysgu ac yn asesu eich Cwrs, megis symud i gyflwyno'r Cwrs ar-lein. |

| **Pam y gallai fod angen newid y Cwrs** | **Beth mae hyn yn ei olygu?** | **Pa newidiadau y gellir eu gwneud?** |
|---|---|---|
| | yn rhesymol angenrheidiol neu'n cael ei gynghori oherwydd materion yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, iechyd a diogelwch a llesiant, neu mewn ymateb i ganllawiau'r Llywodraeth (gan gynnwys Llywodraeth Cymru). | 2. Newid amseriad y modiwlau/addysgu sy'n rhan o'ch Cwrs a nifer y dosbarthiadau/darlithoedd/sesiynau addysgu. |
| **(b) Dileu'r Cwrs** | Mae angen isafswm o fyfyrwyr ar rai cyrsiau er mwyn sicrhau profiad da i fyfyrwyr. | 1. Lle mae nifer isel o fyfyrwyr wedi dangos diddordeb neu wedi derbyn cynigion, gall CBCDC gysylltu â'r ymgeiswyr hynny sydd wedi derbyn cynnig am y cwrs perthnasol a thrafod opsiynau eraill posibl gyda hwy gan gynnwys trosglwyddo i gwrs arall.<br><br>*2.* Mewn achosion prin, gall CBCDC benderfynu diddymu'r cwrs heb gynnig dewis arall. |
| **(c) Newidiadau i gynnwys Cwrs er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu datblygiadau academaidd a/neu newidiadau eraill** | Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl y bydd angen newid cynnwys a/neu gyflwyniad cwrs cyn i chi ddechrau'r cwrs.<br>Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys:<br>1. Diweddaru cyrsiau i adlewyrchu arfer gorau neu ddatblygiadau academaidd newydd.<br><br>2. Adnewyddu cwricwla'r cwrs i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gyfredol er budd myfyrwyr.<br><br>3. Gwella a chyfoethogi profiad myfyrwyr o gwrs.<br><br>4. Ymgorffori newidiadau sy'n deillio o adborth myfyrwyr er budd myfyrwyr.<br><br>5. Bodloni gofynion cyrff allanol, proffesiynol neu gyrff achredu.<br><br>6. Sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r cwrs yn gyfreithlon i chi ac i ddiogelu safonau ac ansawdd | 1. Newid i'r amserlen ar gyfer cyflwyno'ch Cwrs.<br><br>2. Newidiadau i nifer y dosbarthiadau/darlithoedd/seminarau sy'n ymwneud â'r Cwrs.<br><br>3. Newidiadau i gynnwys a maes llafur eich Cwrs.<br><br>4. Newidiadau i sut rydym yn addysgu ac yn asesu eich Cwrs.<br><br>5. Cyflwyno modiwlau newydd neu dynnu hen fodiwlau<br><br>6. Newidiadau i restrau adnoddau. |

| **Pam y gallai fod angen newid y Cwrs** | **Beth mae hyn yn ei olygu?** | **Pa newidiadau y gellir eu gwneud?** |
|---|---|---|
| | academaidd, er enghraifft, mewn ymateb i adborth arholwyr allanol.<br><br>7. Adlewyrchu newidiadau yn y galw gan fyfyrwyr am rai modiwlau. | |
| **(d) Newidiadau i Logisteg/Personél** | Mae CBCDC yn gweithredu sawl campws. Mewn amgylchiadau prin, yn yr amser rhwng rhoi'r Cynnig a Chofrestru, gall CBCDC benderfynu ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol newid lleoliad darpariaeth y Cwrs.<br><br>Efallai y bydd amgylchiadau hefyd pan fydd aelodau unigol o staff yn gadael cyflogaeth CBCDC neu am resymau eraill yn methu â chyflwyno modiwl a hysbysebir (e.e. oherwydd salwch heb ei gynllunio neu absenoldeb arall). | 1. Newid lleoliad darpariaeth y Cwrs lle bo angen.<br><br>2. Lle nad yw aelod unigol o staff yn gallu cyflwyno'r modiwl, bydd CBCDC yn ymdrechu i wneud trefniadau i lenwi'r bwlch a adawyd gan yr aelod staff dan sylw neu i ddarparu dewisiadau eraill. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle na ellir cyflwyno'r modiwl perthnasol. |

**Sut fyddwch chi'n cael gwybod am y newid?**
Bydd pob ymgeisydd gweithredol sydd wedi gwneud cais, wedi cael a/neu wedi derbyn cynnig gan CBCDC a phob myfyriwr cofrestredig yn cael eu hysbysu trwy e-bost cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn unrhyw un o'r amgylchiadau uchod. Bydd gwefan CBCDC hefyd yn cael ei diweddaru ar yr un pryd i adlewyrchu unrhyw newidiadau o'r fath.

**Beth yw eich opsiynau?**
Os oes angen i CBCDC wneud unrhyw newidiadau cyn Cofrestru ar eich Cwrs a fydd yn cael effaith fwy sylweddol ar eich Cwrs a bydd y newidiadau hyn yn achosi anfantais sylweddol i chi, mae gennych yr hawl i:

1. wneud cais am gwrs arall yn CBCDC (yn amodol ar ofynion mynediad perthnasol a bodloni gofynion y Rheolau Mewnfudo fel y mae'n ymwneud â newidiadau i gyrsiau);
2. tynnu eich cais yn ôl neu ei ohirio (bydd goblygiadau mewnfudo i wneud hynny gan gynnwys y posibilrwydd o gwtogi neu ganslo eich fisa Llwybr Myfyrwyr); a
3. chyflwyno cwyn derbyniadau ffurfiol – mae'r weithdrefn berthnasol i'w gweld yn yr adran Cwynion Myfyrwyr.

Os oes angen i CBCDC wneud unrhyw newidiadau ar ôl Cofrestru ar eich Cwrs a fydd yn cael effaith sylweddol ar eich Cwrs a bydd y newidiadau hyn yn achosi anfantais sylweddol i chi, mae gennych yr hawl i:

1. drosglwyddo i gwrs arall yn CBCDC (yn amodol ar ofynion mynediad perthnasol a bodloni gofynion y Rheolau Mewnfudo fel y mae'n ymwneud â newidiadau i gyrsiau);

2. trosglwyddo i sefydliad arall (yn amodol ar ofynion derbyn y sefydliad newydd a bodloni gofynion y Rheolau Mewnfudo a fyddai'n debygol o ofyn am gais pellach am fisa tramor);
3. tynnu eich cais yn ôl neu ei ohirio (bydd goblygiadau mewnfudo i wneud hynny gan gynnwys y posibilrwydd o gwtogi neu ganslo eich fisa Llwybr Myfyrwyr); a
4. chyflwyno cwyn derbyniadau ffurfiol – mae'r weithdrefn berthnasol i'w gweld yn yr adran Cwynion Myfyrwyr.

## 4. Telerau ac Amodau Cofrestru

Os byddwch yn derbyn cynnig ac yn cofrestru yn CBCDC bydd gofyn i chi gadw at, a chytuno i'r, Telerau ac Amodau Cofrestru. Mae'r Telerau ac Amodau Cofrestru presennol a blaenorol ar gael yn y Telerau ac Amodau Cofrestru.

Byddwn bob amser yn ceisio lleihau newidiadau i'r Telerau ac Amodau Cofrestru, ond rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau rhesymol lle, ym marn CBCDC, y bydd yn cynorthwyo i ddarparu addysg yn briodol a/neu os yw'n ystyried yn rhesymol ei fod yn fuddiol i'r myfyrwyr. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath fel arfer yn cael eu trafod â chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr cyn i newidiadau gael eu ffurfioli.

| **Pam y gallai fod angen newid y Telerau ac Amodau Cofrestru** | **Beth mae hyn yn ei olygu?** | **Pa newidiadau y gellir eu gwneud?** |
|---|---|---|
| Mae CBCDC yn cadw'r hawl i ychwanegu at, diddymu neu wneud newidiadau rhesymol i'r Telerau ac Amodau Cofrestru gan gynnwys Rheolau a Rheoliadau'r Coleg pan fydd hyn, ym marn y Coleg, yn helpu i ddarparu addysg yn briodol. | Fel arfer gwneir diweddariadau i Delerau ac Amodau Cofrestru cyn cofrestru ar gyfer pob blwyddyn academaidd. Gellir cyflwyno newid yn ystod y flwyddyn academaidd pan fo'r Coleg yn rhesymol o'r farn bod hynny'n ofynnol gan y gyfraith, cyrff cyllido, canllawiau iechyd y cyhoedd, ei fod er budd y myfyrwyr neu os bydd amgylchiadau eithriadol eraill yn ei gwneud yn angenrheidiol. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys:<br><br>(a) adolygu a diweddaru'r Telerau ac Amodau Cofrestru i sicrhau eu bod yn addas at y diben;<br><br>(b) adlewyrchu newidiadau yn yr amgylchedd allanol, gan gynnwys newidiadau cyfreithiol neu reoleiddiol, newidiadau i drefniadau cyllido neu ariannol neu newidiadau i bolisi, gofynion neu ganllawiau'r llywodraeth a phryderon gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Lloegr;<br><br>(c) amddiffyn a diogelu iechyd a diogelwch a lles ein staff a'n myfyrwyr;<br><br>(d) ymgorffori canllawiau sector neu arfer da; | Gallai hyn arwain at newidiadau i fformat a chynnwys y Telerau ac Amodau Cofrestru a'r dogfennau y cyfeirir atynt ynddynt.<br><br>Mae'r Telerau ac Amodau Cofrestru yn cynnwys derbyn Rheoliadau, gwybodaeth preifatrwydd a pholisïau eraill y Coleg (sydd i'w gweld yn yr adran Preifatrwydd). Gellir diweddaru unrhyw ran o'r wybodaeth hon yn y ffyrdd a ddisgrifir.<br><br>Bydd y Coleg yn cymryd pob cam rhesymol i darfu cyn lleied â phosibl ar fyfyrwyr lle bynnag y bo'n rhesymol bosibl, er enghraifft, trwy roi rhybudd rhesymol o newidiadau i'r Rheoliadau cyn iddynt ddod i rym, neu trwy gyflwyno'r newidiadau yn raddol, os yw'n briodol, a lle bo'n bosibl ymgynghori â chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr ynghylch effaith y newidiadau. |

| **Pam y gallai fod angen newid y Telerau ac Amodau Cofrestru** | **Beth mae hyn yn ei olygu?** | **Pa newidiadau y gellir eu gwneud?** |
|---|---|---|
| | (e) ymgorffori adborth gan fyfyrwyr, a/neu<br><br>(f) er mwyn cynorthwyo gydag eglurder neu gysondeb o ran dull. | |

**Sut fyddwch chi'n cael gwybod am y newid?**

Bydd pob ymgeisydd gweithredol sydd wedi gwneud cais, wedi cael a/neu wedi derbyn cynnig gan CBCDC a phob myfyriwr cofrestredig yn cael eu hysbysu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn unrhyw un o'r amgylchiadau uchod. Bydd gwefan CBCDC hefyd yn cael ei diweddaru ar yr un pryd i adlewyrchu unrhyw newidiadau o'r fath.

Bydd unrhyw newidiadau fel arfer yn dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, er y gellir eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn academaidd os yw'r Coleg yn ystyried yn rhesymol bod hyn er budd myfyrwyr neu lle mae hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu amgylchiadau eithriadol eraill. Bydd CBCDC yn rhoi rhybudd digonol o newidiadau arfaethedig i fyfyrwyr ac yn cymryd pob cam rhesymol i leihau unrhyw darfu arnoch.

**5. *Ffioedd Dysgu***

Mae CBCDC yn codi ffioedd dysgu am ddarparu ei gyrsiau a chi fydd â'r prif gyfrifoldeb am dalu.

Os ydych yn fyfyriwr a noddir gan y llywodraeth ni fydd angen i chi dalu blaendal ond bydd yn dal angen i chi ddarparu tystiolaeth wreiddiol o'ch nawdd.

Bydd CBCDC yn eich anfonebu (neu, os yw'n berthnasol, trydydd parti sy'n talu ar eich rhan) am y ffioedd dysgu, i'w talu ar y dyddiad a nodir yn yr anfoneb.

Os yw trydydd parti yn talu eich ffioedd ac nad yw'r taliad yn cael ei wneud yn llawn erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus, bydd CBCDC yn ystyried eich amgylchiadau personol ac efallai y cewch anfoneb yn bersonol am unrhyw falans sy'n ddyledus.

Mae rhwymedigaeth gontractiol arnoch i dalu'r Ffioedd Dysgu a'r holl daliadau eraill (mae'r taliadau eraill yn cynnwys taliadau a nodir yng ngweithdrefnau Ffioedd Dysgu a Chyllid CBCDC ac amcangyfrif o'r costau astudio ychwanegol a nodir ar y dudalen cwrs berthnasol ar ein gwefan) ar y dyddiadau y maent yn dod yn ddyledus ar ôl i chi dderbyn y cynnig a wnaed gan CBCDC. Os byddwch yn methu â thalu'r Ffioedd Dysgu, mae CBCDC yn cadw'r hawl i'ch atal dros dro a/neu eich tynnu o'ch astudiaethau.

Os na fyddwch yn talu'r Ffioedd Dysgu, gall CBCDC ddod â'ch Contract i ben yn unol â'r telerau Derbyn hyn (fel y'u diffinnir ymhellach yng ngweithdrefnau Ffioedd Dysgu a Chyllid CBCDC) a'ch tynnu o'ch astudiaethau.

Os byddwch, ar ôl Cofrestru, yn penderfynu tynnu allan o'r cwrs, efallai y byddwch yn dal rhaid i chi dalu taliadau eraill mewn contractau eraill yr ydych wedi ymrwymo iddynt, gan gynnwys taliadau rhent am lety.

| **Cynnydd mewn Ffioedd Dysgu** |
| --- |
| Llywodraeth Cymru sy'n llywodraethu uchafswm y Ffioedd Dysgu blynyddol ar gyfer myfyrwyr cartref ar gyrsiau israddedig llawn amser, sy'n £9,535 ar hyn o bryd. Gall y ffi uchaf y gallwn ei chodi arnoch am bob blwyddyn o'ch cwrs godi uwchlaw £9,535 pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu lefel y ffioedd a ganiateir. Er nad yw'n bosibl rhagweld a fydd cynnydd, neu faint y gall y cynnydd fod, dylech nodi iddo gael ei gynyddu o £9,000 i £9,535 gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2024. Bydd y Coleg ond yn cynyddu lefel y Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion cartref yn flynyddol pan fo Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynnydd a ganiateir.<br><br>Ar gyfer myfyrwyr cartref ar gyrsiau ôl-raddedig, byddwn yn adolygu ac efallai'n cynyddu eich Ffioedd Dysgu bob blwyddyn cyn i'r flwyddyn academaidd ddechrau. Mae'r newidiadau hyn oherwydd costau cynyddol darparu ein cyrsiau i chi, a elwir yn chwyddiant. Fel arfer byddwn yn cynyddu eich ffioedd dysgu ar sail chwyddiant, ond er sicrwydd ni fydd cynnydd yn digwydd fwy nag unwaith y flwyddyn ac mae wedi'i gapio ar naill ai'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) cyfredol yn ogystal â 3% neu £2,000, pa un bynnag yw'r isaf.<br><br>Bydd unrhyw benderfyniad ar gynyddu Ffioedd Dysgu yn cael ei gadarnhau gan CBCDC cyn gynted â phosibl. Byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybodaeth glir, ddealladwy, diamwys ac amserol am unrhyw gynnydd mewn ffioedd mewn da bryd, cyn y flwyddyn academaidd nesaf.<br><br>Os bydd cynnydd yn y Ffioedd Dysgu a bod cynnydd o'r fath yn cael effaith andwyol arnoch, bydd gennych yr opsiwn i roi'r gorau i'ch lle ar y cwrs ac ni fydd cosb am wneud hynny os byddwn wedi derbyn eich cais i derfynu cyn dechrau'r Flwyddyn Academaidd nesaf yn dilyn cynnydd mewn Ffioedd Dysgu.<br><br>Rhaid i chi ddarllen holl wybodaeth CBCDC ynglŷn â'ch ffioedd, ysgoloriaethau a bwrsariaethau, a sicrhau y gallwch gyflawni eich cyfrifoldebau ariannol yn llawn. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon YMA. I gael gwybodaeth am opsiynau talu, tynnu allan/gohirio ac adennill dyledion, gweler gweithdrefnau Ffioedd Dysgu a Chyllid CBCDC. |

### 6. Data personol

Ceir manylion sut y gall CBCDC ddefnyddio'ch data personol yn www.rwcmd.ac.uk/privacy. Mae'r Coleg yn cymryd diogelu'r holl wybodaeth bersonol o ddifrif ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i ddiogelu hawliau a rhyddid pob unigolyn. Byddwn yn prosesu eich data yn unol â'n datganiad preifatrwydd, y gallwch ei ddarllen yn www.rwcmd.ac.uk/privacy. Bydd unrhyw ddefnydd o'ch data yn cael ei wneud yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018.

### 7. Cwynion

Fel y sonnir yn adran 3 uchod, mae'r weithdrefn ar gyfer cwynion yn ymwneud â derbyniadau ar gael yn yr adran Cwynion Myfyrwyr.

### 8. Digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth

Mae CBCDC wedi ymrwymo i ddarparu'r rhaglen astudio o'ch dewis ynghyd â'i wasanaethau eraill. Fodd bynnag, weithiau efallai y cawn ein hatal rhag gwneud hynny gan ddigwyddiadau a fyddai'n rhesymol yn cael eu hystyried y tu allan i'n rheolaeth, megis gweithred gan Dduw, tân, ffrwydrad, llifogydd neu drychineb naturiol arall, gweithredoedd terfysgol, cynnwrf sifil neu derfysg, embargos, gwarchaeau, gosod sancsiynau neu gyfyngiadau teithio rhyngwladol neu genedlaethol, pandemig, epidemig neu weithredoedd neu orchmynion gan lywodraethau.

Lle mae digwyddiad o'r fath yn effeithio ar ein gallu i ddarparu ein gwasanaethau i chi, fe wnawn bopeth rhesymol o fewn ein gallu i wneud newidiadau i'r modd y byddwn yn darparu'r gwasanaethau fel y gallwn barhau i ddarparu'r gwasanaethau i chi, er mewn fformat gwahanol neu gan ddefnyddio dull gwahanol o gyflwyno. Lle gallwn wneud hyn, a bod CBCDC yn ystyried ei fod yn rhesymol, ni fydd CBCDC yn atebol am unrhyw oedi ym mherfformiad y gwasanaethau nac am unrhyw newidiadau a wneir fel y gall y gwasanaethau barhau.

Lle cawn ein hatal yn llwyr rhag darparu ein gwasanaethau i chi oherwydd digwyddiad o'r fath ac na allwn wneud unrhyw newidiadau a fyddai'n caniatáu i ni barhau, gallwn ganslo'r rhaglen astudio ac os bydd hynny'n digwydd, byddwn yn ystyried, yn seiliedig ar y lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd hyd at y dyddiad canslo, p'un a oes gennych hawl i unrhyw ad-daliad posibl ai peidio (boed yn llawn neu'n rhannol fel y bo'n briodol).

**9. Cywirdeb gwybodaeth**

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych mewn cysylltiad â'ch cais a'ch cofrestru yn wir ac yn gywir.

Os yw unrhyw ran o'r wybodaeth a darperir yn anghyflawn neu'n anghywir, rydym yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau priodol, a all gynnwys gofyn am gopi caled o ddogfennaeth wreiddiol sy'n ymwneud â'ch cais, cael cadarnhad gan drydydd parti a/neu eich tynnu oddi ar y Cwrs gan ddod â'ch cofrestriad i ben.

Gall darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol i CBCDC neu unrhyw fath o dwyll yn eich cais wneud eich derbyniad a'ch cofrestriad yn annilys a bydd yn rhoi'r hawl i CBCDC derfynu'r Contract hwn gyda chi. Efallai y byddwn hefyd yn gwrthod ystyried unrhyw geisiadau gennych yn y dyfodol.

Mae CBCDC yn cadw'r hawl i gywiro gwallau pan fyddant wedi'u gwneud wrth gyfathrebu penderfyniadau a chynigion.

**10. *Terfyniad***
Mae "Rheolau a Rheoliadau'r Coleg" yn yr adran hon yn cyfeirio at y rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i fyfyrwyr CBCDC a geir yn y Rheolau a Rheoliadau ac mae'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r) rheoliadau ar gyfer camymddwyn academaidd, ymddygiad myfyrwyr, addasrwydd i ymarfer, cymorth i astudio a rheoliadau eraill lle gall eich statws fel myfyriwr gael ei dynnu'n ôl o ganlyniad i fethu â chadw at y rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau.

Bydd y berthynas rhyngoch chi a CBCDC yn dod i ben a bydd y Contract hwn yn peidio â bod yn berthnasol os byddwch yn tynnu allan o CBCDC yn unol â gweithdrefnau tynnu allan perthnasol neu os byddwn yn terfynu'r berthynas â chi os bydd y canlynol yn digwydd neu os penderfynir eu bod wedi digwydd yn unol â Rheolau a Rheoliadau'r Coleg**:**

- os oes gofyn i chi dynnu allan yn unol â Rheolau a Rheoliadau'r Coleg a allai, er enghraifft, fod o ganlyniad i'ch perfformiad academaidd, camymddwyn academaidd, camymddwyn gan fyfyriwr, gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer neu gamau disgyblu eraill gan CBCDC a/neu
- y cewch eich diarddel neu y gwrthodir eich mynediad i unrhyw sefydliad y disgwylir i chi ei fynychu neu fod yn aelod ohono fel rhan o'ch Cwrs; neu
- rhwng derbyn cynnig a dechrau eich Cwrs mae newid yn eich amgylchiadau sydd, yn ein barn resymol ni, yn ei gwneud yn amhriodol i chi astudio ar eich Cwrs; neu

- yn ein barn resymol ni, eich bod wedi methu â darparu'r holl wybodaeth berthnasol i ni, neu wedi darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn ymwneud â'ch cais ar gyfer eich Cwrs; neu
- lle mae eich ymddygiad yn peri risg sylweddol i iechyd, diogelwch neu'ch lles eich hun neu eraill; neu
- os yw eich cofrestriad parhaus yn y Coleg yn golygu ein bod yn torri unrhyw un o'n rhwymedigaethau cyfreithiol i gydymffurfio â gofynion mewnfudo'r DU neu ofynion cyfreithiol eraill; neu
- os byddwch yn methu â chynnal cyflogaeth sy'n ofynnol fel rhan o'ch rhaglen, waeth beth fo'r achos neu'r bai; neu
- nid oes tystiolaeth, neu dystiolaeth gyfyngedig sydd, o'ch ymgysylltiad gan arwain at fethiant i fodloni gofynion ein prosesau monitro presenoldeb ac ymgysylltu, sy'n cynnwys prosesau a systemau cymorth; neu
- os nad ydych wedi talu eich ffioedd dysgu ar amser a bod diffyg taliad wedi parhau gan ddilyn y camau a nodir yn ein gweithdrefn adennill dyledion (yn unol â Pholisi Rheoli Ffioedd a Dyledion y Brifysgol neu bolisi ffioedd dysgu sefydliad partner perthnasol).

Os byddwch yn methu â bodloni amodau ein cynnig neu os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar adeg y terfynu, bydd gennym hawl i wrthod eich cofrestru ar eich Cwrs. Os, ar adeg y terfynu, eich bod wedi cofrestru bydd gennym hawl i ofyn i chi roi'r gorau i astudio ar eich Cwrs a gadael CBCDC ar unwaith.

Wrth derfynu mae'n ofynnol i chi ddychwelyd eich cerdyn adnabod myfyriwr, ynghyd â phopeth sy'n eiddo i CBCDC. Rhaid i chi dalu'r holl ffioedd sy'n ddyledus ar unwaith.

Ni fydd unrhyw gamau a gymerwn o dan yr uchod yn cyfyngu ar ein gallu i gymryd unrhyw gamau eraill yn eich erbyn y mae gennym yr hawl i'w cymryd a/neu y mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i'w cymryd.

## 11. Dogfennau / Cofrestru

Rhowch wybod i CBCDC os oes angen unrhyw rai o'r dogfennau a grybwyllir uchod arnoch ar ffurf copi caled.

**Trwy dderbyn lle yn CBCDC, rydych chi'n cytuno i ymrwymo wrth y telerau hyn gan gynnwys y dolenni i'r Telerau ac Amodau Cofrestru. Mae gennych hawl statudol i ganslo eich Contract. Bydd y cyfnod canslo yn dod i ben ar ddiwedd 14 diwrnod calendr ar ôl y diwrnod y byddwch yn derbyn y cynnig o le yn CBCDC**

| **Crynodeb Gweithredol o Delerau Pwysig:**<br>Mae'r holl wybodaeth a ddarperir yn y Telerau ac Amodau Derbyn a'r Telerau ac Amodau Cofrestru yn bwysig. Fodd bynnag, rydym am dynnu eich sylw at y canlynol: |
|---|
| *1. Gofynion mynediad cwrs penodol a geir ar dudalen eich Cwrs*<br>*2. Eich hawliau canslo*<br>*3. Newidiadau i'r Cwrs* (gweler y tabl yn adran 3 – Darparu Cyrsiau a Gwasanaethau)<br>*4. Newidiadau i'r Telerau ac Amodau Cofrestru* (gweler y tabl yn adran 4 - Y Telerau ac Amodau Cofrestru)<br>*5. Ffioedd a chynnydd mewn ffioedd* (gweler adran 5 – Ffioedd Dysgu)<br>*6. Diogelu data* (gweler adran 6 – Data Personol)<br>*7. Cwynion* (gweler adran 7 – Cwynion)<br>*8. Darparu gwybodaeth ffug* (gweler adran 9 - Darparu a Chywirdeb Gwybodaeth)<br>9. *Terfynu* (gweler adran 10 – Terfynu)<br>*10. Eraill y dylech eu darllen (gweler y dolenni yn Nhelerau ac Amodau Cofrestru Cyrsiau CBCDC)*<br>*Telerau ac Amodau Cofrestru:*<br>- *Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth*<br>- *Polisi Anabledd*<br>- *Ymddygiad Myfyrwyr*<br>- *Camymddwyn Academaidd*<br>- *Addasrwydd i Ymarfer*<br>- *Cefnogaeth i Astudio*<br>- *Rheoliadau Cyfrifiadura TG* |

## ATODIAD:

## Telerau ac Amodau Cofrestru Cyrsiau CBCDC 2025/26

### Cyflwyniad i'r Telerau ac Amodau

Mae'r ddogfen ganlynol yn amlinellu Telerau ac Amodau Coleg Brenhinol Cerdd Cymru a Drama ('CBCDC' a 'y Coleg'), lle mae ei fyfyrwyr yn ymrwymo i gontract gyda'r Coleg.

Mae'n iddi *chwe* adran gan gynnwys datganiad myfyriwr ac ynddi ddolenni i nifer o ddogfennau pwysig. **Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn rhan bwysig o'ch perthynas â CBCDC, a dylech dreulio amser yn eu darllen ac yn ymgyfarwyddo â'r dogfennau sydd wedi'u dolennu.**

Mae CBCDC yn aelod o Grŵp Prifysgol De Cymru, a Phrifysgol De Cymru yw'r Corff Dyfarnu Graddau ar gyfer y Coleg. Mae'r Telerau ac Amodau felly yn cyfeirio at Brifysgol De Cymru lle bo hyn yn berthnasol, ac yn fwyaf arbennig mewn perthynas â Rheoliadau Cyrsiau ac ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol.

Mae CBCDC yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo ystod o bolisïau a gweithdrefnau, sy'n esbonio sut mae agweddau ar fywyd a gwaith y Coleg yn cael eu gweinyddu, eu cefnogi a'u trefnu. Mae myfyrwyr neu eu cynrychiolwyr trwy Undeb y Myfyrwyr yn cael eu cynnwys pryd bynnag y caiff y rhain eu hysgrifennu neu eu hadolygu. Mae'r polisïau'n ymestyn i agweddau ar rwymedigaeth gyfreithiol a statudol, rheoleiddio, ymddygiad ac atebolrwydd ar y cyd o fewn y gymuned academaidd ac artistig. Cyfeirir yn uniongyrchol at rai o'r rhain yn y Telerau ac Amodau, ond maent i gyd ar gael trwy'r dolenni a ddarperir.

Wrth dderbyn y telerau ac amodau hyn, a dod yn aelod o'r Coleg, rydych yn cytuno â'r egwyddor bod polisïau a gweithdrefnau o'r fath o fudd i'r gymuned gyfan, ac i gadw atynt. Yn yr un modd, mae CBCDC yn ymrwymo i rannu cyfrifoldeb gyda chi i gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol, statudol a moesol ym mywyd a gwaith y Coleg.

### Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd gwybodaeth bersonol a ddarperir gennych a'r wybodaeth a gafwyd o ffynonellau eraill mewn cysylltiad â'ch astudiaethau yn cael eu cadw'n ddiogel a'u defnyddio gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (y Coleg) yn ystod y cyfnod cofrestru ac ar ôl i chi adael y Coleg at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys gweinyddu'r holl gofnodion academaidd, gwasanaethau cymorth myfyrwyr (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud ag iechyd a lles), gwasanaethau gyrfaoedd a gweithredu Rheoliadau a Gweithdrefnau'r Coleg. Yn ogystal, defnyddir y wybodaeth ar gyfer ymchwil a chasglu ystadegau a gweinyddu'r elfen Cynfyfyrwyr. Mae hysbysiad preifatrwydd llawn y Coleg i'w weld yn yr adran Preifatrwydd.

### Deddf Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2010

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu cynhwysol. Nid ydym yn gwahaniaethu'n annheg, naill ai'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, yn erbyn aelodau o'n cymuned ar sail y Nodweddion Gwarchodedig fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae CBCDC wedi cyhoeddi polisi o'r enw Parch yng Nghymuned y Coleg sy'n mynegi ei ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ac sydd i'w weld yn yr adran *Cydraddoldeb Strategol*.

**Myfyrwyr Rhyngwladol a'r Undeb Ewropeaidd sy'n astudio yn y DU**

Rhaid i fyfyrwyr a noddir o dan Haen 4/fisa Llwybr Myfyrwyr hefyd gydymffurfio â'r amodau a/neu'r cyfrifoldebau a bennir gan eu fisa a chydweithio â Phrifysgol De Cymru i gyflawni eu rhwymedigaethau cydymffurfio Haen 4/Llwybr Myfyrwyr. Datgelir gwybodaeth myfyrwyr i Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI)/y Swyddfa Gartref a gallai hyn fod, er enghraifft, yn ymwneud â chais mewnfudo yr ydych wedi'i wneud neu ynglŷn â'ch presenoldeb ac ymgysylltiad, neu geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys mewn cysylltiad ag atal neu ganfod trosedd, gweinyddu gweithio anghyfreithlon a/neu ddal neu erlyn troseddwyr mewnfudo.

Os ydych chi'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo a bod gennych chi fath gwahanol o fisa sy'n eich galluogi i astudio yn y Brifysgol, rhaid i chi sicrhau eich bod yn deall ac yn cadw at yr amodau sydd ynghlwm wrth eich fisa ac yn cydymffurfio â newidiadau y gall i Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI)/y Swyddfa Gartref eu gwneud mewn perthynas â'ch math o fisa. Rhaid i chi hefyd hysbysu'r Brifysgol ar unwaith am unrhyw newidiadau i'ch sefyllfa fewnfudo a rhaid i chi ymateb i geisiadau rhesymol gan y Brifysgol am wybodaeth ynglŷn â'ch sefyllfa fewnfudo, er enghraifft tystiolaeth o geisiadau mewnfudo pellach neu ganiatâd ar ôl i'r cyfnod caniatâd blaenorol ddod i ben. Os nad oes gennych ganiatâd mewnfudo priodol ac na allwch gyflwyno tystiolaeth o'ch hawl i astudio pan ofynnir am hynny, cewch eich tynnu oddi ar eich cwrs a bydd y Contract hwn yn dod i ben.

Ac eithrio cyrsiau sy'n gyfan gwbl ar-lein, o 30 Mehefin 2021 mae'n ofynnol i fyfyrwyr yr UE sydd â chaniatâd mewnfudo sefydlog, cyn-sefydlog neu ganiatâd mewnfudo UE arall a myfyrwyr sy'n teithio o'r UE ar fisa ymweliad ddangos tystiolaeth bod ganddynt ganiatâd mewnfudo priodol er mwyn cofrestru ac astudio yn y DU.

**Cwynion**

Mae CBCDC yn cydnabod y gall fod adegau pan fydd myfyrwyr yn teimlo bod ganddynt achos i gwyno am wasanaeth y maent wedi'i dderbyn. Mae prosesau Cwynion CBCDC (ar gael yn yr adran Cwynion Myfyrwyr) yn berthnasol i fyfyrwyr yn ystod eu Cwrs ac am gyfnod hyd at 3 mis ar ôl gadael neu raddio o'r Coleg.

Gall myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol yn Sefydliadau Partner y Brifysgol (e.e. CBCDC) gyrchu Rheoliadau Cwynion PDC lle mae'r gŵyn yn ymwneud â materion academaidd.

Lle bo materion yn gyfrifoldeb y Sefydliad Partner (CBCDC) rhaid i fyfyrwyr ddefnyddio Gweithdrefn Gwyno'r Sefydliad Partner – mewn achosion o'r fath, dylai myfyrwyr gysylltu â gwasanaethau myfyrwyr y Sefydliad Partner perthnasol am fanylion.

**Digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth**

Mae CBCDC wedi ymrwymo i ddarparu'r rhaglen astudio o'ch dewis ynghyd â'i wasanaethau eraill. Fodd bynnag, weithiau efallai y cawn ein hatal rhag gwneud hynny gan ddigwyddiadau a fyddai'n rhesymol yn

cael eu hystyried y tu allan i'n rheolaeth, megis gweithred gan Dduw, tân, ffrwydrad, llifogydd neu drychineb naturiol arall, gweithredoedd terfysgol, cynnwrf sifil neu derfysg, embargos, gwarchaeau, gosod sancsiynau neu gyfyngiadau teithio rhyngwladol neu genedlaethol, pandemig, epidemig neu weithredoedd neu orchmynion gan lywodraethau. Lle mae digwyddiad o'r fath yn effeithio ar ein gallu i ddarparu ein gwasanaethau i chi, fe wnawn bopeth rhesymol o fewn ein gallu i wneud newidiadau i'r modd y byddwn yn darparu'r gwasanaethau fel y gallwn barhau i ddarparu'r gwasanaethau i chi, er mewn fformat gwahanol neu gan ddefnyddio dull gwahanol o gyflwyno. Lle gallwn wneud hyn, a bod CBCDC yn ystyried ei fod yn rhesymol, ni fydd CBCDC yn atebol am unrhyw oedi ym mherfformiad y gwasanaethau nac am unrhyw newidiadau a wneir fel y gall y gwasanaethau barhau.

Lle cawn ein hatal yn llwyr rhag darparu ein gwasanaethau i chi oherwydd digwyddiad o'r fath ac na allwn wneud unrhyw newidiadau a fyddai'n caniatáu i ni barhau, gallwn ganslo'r rhaglen astudio ac os bydd hynny'n digwydd, byddwn yn ystyried, yn seiliedig ar y lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd hyd at y dyddiad canslo, p'un a oes gennych hawl i unrhyw ad-daliad posibl ai peidio (boed yn llawn neu'n rhannol fel y bo'n briodol*).*

**Datganiad Myfyriwr**

- Rwy'n cytuno i gadw at yr holl reoliadau sy'n berthnasol i fyfyrwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a'u dilyn fel y nodir yn *Nhelerau ac Amodau – Myfyrwyr CBCDC*
- Rwy'n cytuno i gadw at reoliadau a gweithdrefnau gwaith achos myfyrwyr, fel y nodir yn *Nhelerau ac Amodau – Myfyrwyr CBCDC*
- Rwy'n deall, os oes gennyf fisa myfyriwr y gall fy noddwr ariannol swyddogol ofyn i'r Coleg ddarparu canlyniadau fy nghwrs a gwybodaeth am fy mhresenoldeb.
- Rwy'n deall os oes gennyf fisa Llwybr Myfyrwyr neu fisa arall sy'n caniatáu i mi astudio ar unrhyw un o gampysau'r Coleg, bod yn rhaid i mi gydymffurfio â thelerau gofynion yr Awdurdod Fisa a Mewnfudo ac rwy'n ymwybodol o fy nghyfrifoldebau mewnfudo a dyletswyddau cadw cofnodion ac adrodd y Coleg fel y nodir yn *Nhelerau ac Amodau – Myfyrwyr CBCDC*.
- Rwy'n deall, os yw'n angenrheidiol ac yn briodol, bod y Coleg yn cadw'r hawl yn ystod neu yn dilyn unrhyw ymchwiliad disgyblu i hysbysu corff proffesiynol/allanol perthnasol.
- Rwy'n cydnabod bod ffioedd dysgu yn ddyledus ar gyfer pob blwyddyn neu gam o'm cwrs. Rwy'n cytuno, pe bai'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr neu fy noddwr yn methu â thalu fy ffioedd, y byddaf yn atebol i dalu'r ffioedd yn llawn ar unwaith ac rwy'n ymwybodol o sancsiynau'r Coleg am beidio â gwneud hynny.
- Rwy'n cytuno i gadw at weithdrefnau *Ffioedd Dysgu a Chyllid* CBCDC ac rwy'n deall, os byddaf yn tynnu allan o'm cwrs, mai dim ond yn unol â'r rheoliadau hyn y gwneir unrhyw ostyngiad mewn ffioedd.
- Rwy'n datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y wybodaeth a roddwyd gennyf mewn perthynas â'm cofrestriad yn gywir. Os yw unrhyw ran o'r wybodaeth a ddarparwyd yn anghyflawn neu'n anghywir mae'r Coleg yn cadw'r hawl i gymryd unrhyw gamau priodol, a all gynnwys tynnu oddi ar gwrs.
- Rwy'n deall, trwy dderbyn y Telerau ac Amodau, fy mod yn ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rwymol gyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

## Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

## Telerau ac Amodau Cofrestru Cyrsiau 2025/26

## Telerau ac Amodau Cofrestru Cyrsiau CBCDC 2024/25 - Dolenni i ddogfennau pwysig y cyfeirir atynt yn y Telerau ac Amodau

(i) Polisïau a Gweithdrefnau

- Datganiad Man Parchus *https://www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/policies-and-procedures*
- Ymrwymiad CBCDC i Gydraddoldeb: *https://www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/policies-and-procedures*
- Cynllun Gwrth-hiliaeth *https://www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/policies-and-procedures*
- Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch https://hub.rwcmd.ac.uk/student-charter/healthhttps://hub.rwcmd.ac.uk/student-charter/health-and-safety/and-safety/
- Rheoliadau Systemau Gwybodaeth https://hub.rwcmd.ac.uk/my-onlinehttps://hub.rwcmd.ac.uk/my-online-resources/it/it-regulations/resources/it/it-regulations/
- Datganiad Preifatrwydd www.rwcmd.ac.uk/privacy
- Rheoliadau'r Llyfrgell https://www.rwcmd.ac.uk/student-life/library
- Hawlfraint https://hub.rwcmd.ac.uk/student-experience/library/copyrighthttps://hub.rwcmd.ac.uk/student-experience/library/copyright-notes/notes/

(ii) Rheoliadau Cyrsiau CBCDC a Rheoliadau Academaidd Prifysgol De Cymru
https://www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/policies-and-procedures a https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/

- Dogfennau Maes Llafur (i fod ar gael ar Moodle ar gyfer Myfyrwyr Cofrestredig)
- Amgylchiadau Esgusodol
- Gweithdrefnau Apelio
- Camymddwyn Academaidd ac Arfer Annheg
- Gwirio DBS

(iii) Rheoliadau Gwaith Achos CBCDC
https://www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/policies-and-procedures

- Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr
- Rheoliadau sy'n Llywodraethu Ymddygiad Myfyrwyr
- Addasrwydd i Astudio
- Atal Astudiaethau Dros a Thynnu Allan o Astudiaethau
- Polisi Ymgysylltiad Myfyrwyr

(iv) Myfyrwyr Rhyngwladol
*https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/attendance-monitoring/*
https://www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/policies-and-procedures

- Cydymffurfiaeth ac Adrodd

(v) Rheoliadau Ariannol

*https://cdn.rwcmd.ac.uk/documents/Governance-Policies/Tuition-Fee-Payment-Policy-Nov-24_compressed.pdf*
https://www.rwcmd.ac.uk/who-we-are/policies-and-procedures

- Setliad Ffioedd Myfyrwyr
- Dyledion Myfyrwyr i'r Coleg
- Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn

**Enghaifft o Ffurflen Canslo**

**Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru**

Cod UCAS (os yn berthnasol):

**Ffurflen Ganslo (gellir ei defnyddio os oes gennych gynnig yr ydych am ei wrthod)**

Anfonwch trwy e-bost at admissions@rwcmd.ac.uk

Neu llenwch y ffurflen hon a'i hanfon drwy'r post at:

Derbyniadau – Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Ffordd y Gogledd

Caerdydd

CF10 3ER

Rhoddaf hysbysiad drwy hyn fy mod yn dymuno gwrthod fy lle a chanslo fy nghontract gyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i astudio rhaglen sy'n dechrau yn RHOWCH MIS/BLWYDDYN.

Enw'r Ymgeisydd:

Rhif Ymgeisydd:

Enw'r Cwrs:

Cyfeiriad y myfyriwr:

Llofnod y myfyriwr:

Dyddiad: